## Gweithgaredd Dysgu

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr drwy ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n bosibl ei ddefnyddio hefyd yn dempled i greu eich gweithgareddau eich hun drwy ddefnyddio gwefan Casgliad y Werin Cymru.

**Cyfnod Allweddol neu Lefel** — **Cyfnod Allweddol 2**

**Pwnc** — **Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol**

**Teitl** — **Ar Garreg Eich Drws – Catalogau Gwerthu**
*Defnyddio archifau i ymchwilio i hanes lleol*

**Awdur** — **Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r archifdai lleol a ganlyn: Archifau Gwent, Archifau Sir Benfro, Archifau Ynys Môn, Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam.**

## Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol – Catalogau Gwerthu

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar sut y gallwch ymchwilio i hanes eich ardal drwy ddefnyddio catalogau gwerthu fel math o ffynhonnell sydd ar gael mewn archifdai neu swyddfeydd cofnodion lleol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae'n rhan o gyfres sy'n ffurfio'r blociau adeiladu sylfaenol er mwyn cael gwybod am hanes lleol.

Bwriedir i'r adnodd fod yn ganllaw i athrawon, i'w helpu i ddefnyddio ffynonellau cynradd yn yr ystafell ddosbarth. Gall yr adnodd helpu athrawon hefyd i weithio gyda'u harchifdy lleol i ddod o hyd i ffynonellau tebyg ar gyfer eu hardal eu hunain. Ei nod yw cyflwyno athrawon a myfyrwyr i'r mathau o ffynonellau archifol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hanes lleol ac i ymgyfarwyddo â ffurf, golwg a chynnwys y ffynonellau.

# Ar Garreg Eich Drws – Catalogau Gwerthu – Amcanion Dysgu

**Bydd y dysgwyr yn deall:**

- Rôl yr archifdai o ran darparu ffynonellau hanesyddol pwysig.
- Rôl defnyddio catalogau gwerthu fel math o ffynhonnell hanesyddol.
- Pa fath o fywyd oedd gan bobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn eu hardal leol o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru.

**Bydd y dysgwyr yn gallu:**

**Pwnc yn y Cwricwlwm – Hanes**

- Defnyddio ystod o ffynonellau, gan gynnwys TGCh, i chwilio am wybodaeth.
- Gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol.
- Adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau.
- Nodi'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli a dehongli'r gorffennol.
- Cynllunio'r dull ymchwilio i'w ddefnyddio, gan awgrymu ffordd o ganfod gwybodaeth berthnasol.
- Dewis, cofnodi a threfnu gwybodaeth hanesyddol.
- Cyfleu syniadau, safbwyntiau a chasgliadau yn fwyfwy annibynnol mewn amrywiaeth o ffyrdd.

**Fframwaith Llythrennedd**

- Cyfrannu at drafodaethau a chyflwyniadau.
- Defnyddio ystod o strategaethau darllen priodol i wneud ystyr o destunau.
- Datblygu dealltwriaeth o wybodaeth anghyfarwydd.
- Creu cysylltiadau o fewn/ar draws ystod o destunau/themâu.
- Ymchwilio er mwyn datblygu dealltwriaeth lawn.
- Defnyddio strwythur ac iaith sy'n briodol i ddiben a ffocws yr ysgrifennu.

**Pwnc yn y Cwricwlwm – Daearyddiaeth**

- Adnabod beth sy'n debyg ac yn wahanol er mwyn disgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd.
- Arsylwi a gofyn cwestiynau am le.
- Adnabod a lleoli mannau drwy ddefnyddio mapiau a defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ganfod a chyflwyno gwybodaeth am leoliad.

# Ar Garreg Eich Drws – Catalogau Gwerthu – Fframwaith Sgiliau

**Meddwl**

- Gofyn cwestiynau.
- Ysgogi gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol.
- Penderfynu ar y broses/dull a'r strategaeth.
- Cywain gwybodaeth.
- Creu a datblygu syniadau.
- Pwyso a mesur tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau.
- Meddwl yn rhesymegol a chwilio am batrymau.

**Cyfathrebu**

- Datblygu a chyfleu gwybodaeth a syniadau.
- Trefnu syniadau a gwybodaeth.
- Ysgrifennu'n gywir.
- Cyfleu gwybodaeth.

**TGCh**

- Canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau.
- Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

# Ar Garreg Eich Drws – Testun Rhagarweiniol

## Cyflwyniad

Mae'r adnodd hwn yn rhan o gyfres o wyth. Mae pob adnodd yn y gyfres yn cyflwyno gwahanol fath o ffynhonnell hanesyddol. Mae'r mathau o ffynonellau hanesyddol sy'n cael eu cyflwyno yn yr adnodd hwn yn nodweddiadol o'r hyn y gallech edrych arnyn nhw mewn project hanes lleol ac maen nhw i gyd ar gael yn eich archifdy lleol.

Dyma'r gwahanol fathau o ffynonellau sy'n cael eu cyflwyno:

Y Cyfrifiad
Mapiau'r Degwm a Mapiau Arolwg Ordnans
Llyfrau Log Ysgolion
Ffotograffau
Cofrestrau Plwyf – bedyddiadau a marwolaethau
Cyfeiriaduron Masnach
**Catalogau Gwerthu**
Papurau newydd

Mae'r ffynonellau hanesyddol enghreifftiol ym mhob adnodd yn dod o bedair ardal yng Nghymru: Caergybi, Blaenafon, Saundersfoot a Wrecsam. Maen nhw'n deillio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Gan ddefnyddio'r rhain yn enghreifftiau, mae'n bosibl ymchwilio, creu cysylltiadau a chymariaethau, gofyn ac ateb cwestiynau, darganfod tirweddau a phobl, a'r cysylltiadau sydd rhyngddyn nhw.

Ceir ffilm fer sy'n cyflwyno archifau ac ar gyfer pob math o ffynhonnell, yna ceir ffilm fer arall sy'n esbonio'r math o ffynhonnell a sut y gallwn ei defnyddio hi i gael gwybod rhagor am hanes lleol. Mae trawsgrifiad o'r ffilmiau a'r mân-luniau yn y **nodiadau i athrawon**. Mae'r delweddau maint llawn ar gael drwy ddilyn y dolenni at wefan Casgliad y Werin Cymru.

Ar gyfer pob adnodd yn y gyfres mae sawl **tasg ar-lein** ar gyfer y disgyblion sy'n defnyddio'r ffynonellau o'r pedair ardal. Mae'n bosibl gweld y ffynonellau hyn ar-lein ar wefan Casgliad y Werin Cymru drwy ddilyn y dolenni sydd ar daflenni tasgau'r disgyblion. Mae **gweithgareddau ychwanegol** hefyd sy'n awgrymu sut y gallai'r disgyblion ddefnyddio ffynonellau eu harchifdy lleol i ymchwilio i'r hanes lleol sydd ar garreg eu drws. Mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn galluogi disgyblion i gymharu a gwrthgyferbynnu eu hardal hwy ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Ceir manylion archifdai lleol a chenedlaethol Cymru ar ddiwedd y nodiadau i athrawon.


Gwylio'r ffilm - yr Archif a'r Archifdy

# Ar Garreg Eich Drws - Ffilm Ragarweiniol - Catalogau Gwerthu

Rhagarweiniad byr ar ffilm yw hwn. Mae archifydd yn esbonio catalogau gwerthu fel math o ffynhonnell a sut y gallwn eu defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol.

Gwyliwch y ffilm ragarweiniol - Defnyddio Catalogau Gwerthu


# Edrych ar Archifau - *Catalogau Gwerthu*


FARMING STOCK

HOUSEHOLD FURNITURE

SOLD BY PUBLIC AUCTION

BAUGH & JONES,


KITCHEN No. 1.


VALUABLE PROPERTIES


THE TREVAYNE ESTATE

THE SMALL HOLDINGS


MANSION AND PREMISES.

TWO EXCELLENT SHOPS

LAND & COTTAGE


FREEHOLD SHOPS & PREMISES,

FREEHOLD LANDS & COTTAGE,

## Defnyddio catalogau gwerthu

Mae catalogau gwerthu'n ddefnyddiol iawn ar gyfer ymchwilio i hanes lleol oherwydd byddan nhw'n aml yn cynnwys gwybodaeth fanwl am eiddo, y perchnogion neu'r bobl sy'n byw yno a'r adeiladau a'r cynnwys ar bwynt penodol mewn amser. Roedd y catalogau hyn yn cael eu creu gan gyfreithwyr ac arwerthwyr, y bobl neu'r cwmnïau a oedd yn gwerthu'r eiddo. Mae rhai'n cynnwys mapiau neu gynlluniau fel rhan o'r catalog ac mae rhai diweddarach weithiau'n cynnwys ffotograffau o'r tu mewn a'r tu allan. Ni fyddai'r rhan fwyaf o gatalogau'n goroesi; bydden nhw fel rheol wedi cael eu taflu i ffwrdd ar ôl yr arwerthiant. Mae gennym enghreifftiau o hyd o gatalogau gwerthu oherwydd llwyddodd rhai i oroesi ym mhapurau cyfreithwyr ac arwerthwyr a gyrhaeddodd yr archifdai lleol.

Mae catalogau gwerthu'n ffynonellau gwerthfawr o hanes lleol oherwydd maen nhw'n aml yn rhoi disgrifiadau a chynlluniau manwl o'r eiddo a sut yr oedden nhw'n cael eu rhannu'n lotiau i'w gwerthu. Mae llawer yn dangos gwybodaeth am werthu ffermydd unigol a darnau bach o dir sy'n cael eu galw'n dyddynnod. Mae catalogau hefyd ar gael ar gyfer gwerthu ystadau mawr.

Mae rhai o'r catalogau hyd yn oed yn rhestru'r dodrefn mewn tai neu anifeiliaid fferm, yr offer a'r peiriannau a oedd hefyd yn cael eu gwerthu.

Mae pum enghraifft o gatalogau gwerthu ac un enghraifft o hysbyseb mewn arwerthiant:

**Blaenafon 1895** - hysbyseb ar gyfer gwerthu tri eiddo ger Blaenafon.
**Caergybi 1895** - rhan o gatalog gwerthu ar gyfer eiddo a thir ym Modrewyn a map yn dangos lleoliadau'r eiddo a'r tir.
**Saundersfoot 1901** - pum tudalen o gatalog gwerthu ar gyfer ystadau a fferm fach.
**Wrecsam 1867** - tudalen deitl a thudalen gyntaf ar gyfer gwerthu'r holl dda byw a'r cynnwys ar Fferm Brychdyn.
**Wrecsam 1886** - gwerthu tair lot - plas "Roseneath", siopau, tir a bwthyn yng Ngresffordd.
**Wrecsam 1890** - tair tudalen o gatalog ar gyfer gwerthu dodrefn ac eiddo "Roseneath".

Yn ystod y tasgau, defnyddiwch y dolenni i'r casgliadau sydd ar wefan Casgliad y Werin Cymru i edrych ar yr holl gatalogau gwerthu ar-lein. Drwy gymharu'r catalogau gwerthu, mae modd cael gwybodaeth ddefnyddiol am y pethau a oedd yn debyg a'r pethau a oedd yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

## Ar Garreg Eich Drws – Catalogau Gwerthu / Tasg 1

**Beth allwch chi ei ddysgu o'r catalogau gwerthu am fathau a meintiau'r eiddo ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?**

Astudiwch y catalogau gwerthu o'r casgliad isod.

### Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.

Edrychwch ar y catalogau gwerthu yn y casgliad. Pa fathau o eiddo ydyn nhw?
Edrychwch ar y catalog ar gyfer gwerthu Fferm Brychdyn ym 1867. Pam mae'r offer ffermio a'r da byw'n cael eu gwerthu? Edrychwch ar ddwy dudalen y catalog. Beth mae'r rhestrau'n ei ddweud wrthym am y math o weithgareddau a fyddai'n digwydd ar Fferm Brychdyn. Mae llawer o dermau neu eiriau nad ydym yn eu defnyddio heddiw. Dewiswch derm neu air ac ymchwiliwch i'r ystyr. Defnyddiwch y rhyngrwyd i ddod o hyd i lun o'r offeryn y mae'n ei ddisgrifio.
Edrychwch ar yr hysbyseb gwerthu ar gyfer eiddo ger Blaenafon ym mhlwyf Trefethin. Yn anffodus, nid oes catalog gwerthu ar gael ar gyfer yr eiddo hwn. Edrychwch ar y mesuriadau ar gyfer y tri eiddo hyn. Beth heddiw sy'n cyfateb i erwau, rhodiau a perciau? Allwch chi ddarganfod faint o dir sydd gan bob fferm mewn mesuriadau modern?

### Casgliad ar gyfer Tasg 1
Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

## Ar Garreg Eich Drws – Catalogau Gwerthu / Tasg 2

**Beth y gallwch chi ei ddysgu o'r catalogau gwerthu am sut mae eiddo wedi newid ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?**

Astudiwch y catalogau gwerthu o'r casgliad isod.

### Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.

Mae catalog gwerthu ar gael o 1901 ar gyfer tair fferm ar Ystâd Trevayne a chwech o ffermydd neu dyddynnod bach yn St Issell. Beth sy'n gwneud y catalog hwn yn ffynhonnell werthfawr iawn ar gyfer astudio hanes lleol cefn gwlad o gwmpas Saundersfoot? Rhowch dri rheswm o leiaf.
Defnyddiwch yr adran o'r map ar wefan Casgliad y Werin Cymru i gael gwybod beth sydd yno heddiw – ydy'r ffermydd hyn yno o hyd? Weithiau, mae strydoedd modern wedi cael eu galw ar ôl ffermydd neu fythynnod a oedd yn arfer bod yno. Faint o enwau'r tyddynnod allwch chi ddod o hyd iddyn nhw? A oes unrhyw un o'r ffermydd yno o hyd? Gallwch ddefnyddio'r botwm chwilio i weld a yw'r enwau'n dal i gael eu defnyddio yn Saundersfoot neu yn y cyffiniau.
Edrychwch ar glawr y catalog. Darllenwch eto'r wybodaeth am y tyddynnod gerllaw Saundersfoot. Beth mae'r catalog yn awgrymu y gellid ei wneud gyda'r tyddynnod? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am yr hyn sy'n digwydd yn Saundersfoot ar ddechrau'r ugeinfed ganrif?

### Casgliad ar gyfer Tasg 2
Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Ar Garreg Eich Drws – Catalogau Gwerthu / Tasg 3

**Sut mae catalogau gwerthu'n cysylltu â ffynonellau eraill y gallwn eu defnyddio o'r archifau?**

Wrth ymchwilio i hanes lleol, byddwch yn creu cysylltiadau rhwng y gwahanol fathau o ffynonellau. Mae'n debyg i wneud jig-so a gwaith ditectif – rydych chi'n gorfod chwilio am gysylltiadau. Astudiwch y ffynonellau o'r casgliad isod i'ch helpu i ateb y cwestiwn.

## Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.

Edrychwch am y map a chatalog gwerthu am eiddo a thir ym Modrewyn (Caergybi) 1894. Chwiliwch am Steam Mill a Steam Mill Road. Edrychwch ar y gwahanol lotiau a oedd yn mynd i gael eu gwerthu. Nawr, edrychwch ar Fap Arolwg Ordnans Caergybi ym 1900. Beth sydd wedi digwydd i'r tir ers ei werthu ym 1894? Roedd lot 89 yn bandy ym 1894. Ai pandy sydd yno o hyd ym 1900? Edrychwch ar fanylion gwerthu 1886 ac 1890 ar gyfer "Roseneath". Allwch chi ddod o hyd i "Roseneath" yng Nghyfeiriadur Wrecsam 1892-93 yn y rhestrau strydoedd? Awgrym – ym 1896, dywedir bod Roseneath yn Grove Park. Edrychwch am stryd sydd â'r un enw. Pwy sy'n byw yno ym 1892? Ydy Roseneath yn dal i gael ei restru yng nghyfeiriadur 1934?

## Casgliad ar gyfer Tasg 3

Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

## *Da iawn chi. Rydych wedi gorffen eich tasgau ac rydych wedi casglu gwybodaeth drwy ddefnyddio catalogau gwerthu.*

## Dyma'ch cyfle chi i gael gwybod rhagor.

Gallwch ymweld â'ch swyddfa cofnodion neu'ch archif lleol neu ofyn am weld enghreifftiau o gatalogau gwerthu ar gyfer eich ardal chi. Mae llawer o gatalogau gwerthu wedi cael eu sganio ac ar gael ar-lein erbyn hyn.
Cerddwch drwy eich ardal leol, eich pentref, eich stryd fawr ac ati, i weld a allwch chi weld unrhyw adeiladau sydd yn y catalogau ac sy'n dal yno hyd heddiw. Tynnwch lun o'r eiddo nawr. A oes unrhyw enwau wedi newid ar yr eiddo?

## Pa gwestiynau newydd fyddech chi'n hoffi cael atebion iddyn nhw?

**Gallwch wneud rhagor o ymchwil ar lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.**

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn** www.archiveswales.org.uk/

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn** http://www.culture24.org.uk/places+to+go/wales **(Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn** www.llgc.org.uk/cy/

**Casgliad y Werin Cymru yn** www.casgliadywerincymru.co.uk

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn** www.cbhc.gov.uk

# Gweithgareddau Ychwanegol – Math a Maint yr Eiddo

**Gan ddefnyddio catalogau a rhestrau gwerthu o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae math a maint yr eiddo yn eich ardal leol yn wahanol i'r eiddo sydd yn yr ardaloedd eraill yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar gatalogau a rhestrau gwerthu o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Beth yw'r prif fathau o eiddo? Beth yw eu maint? Sut mae hyn yn wahanol i'r ardaloedd eraill?

## *Edrych ar gatalogau a rhestrau gwerthu – dylunio catalog gwerthu ar gyfer yr ysgol*






Ar ôl astudio'r catalogau gwerthu, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn dylunio ac yn ysgrifennu catalog gwerthu ar gyfer eu hysgol yn seiliedig ar rai diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

**Efallai yr hoffai'r disgyblion gynnwys y wybodaeth hon:**

- **Enw a lleoliad yr ysgol.**
- **Maint yr ystafelloedd.**
- **Penderfynwch a oes unrhyw gynnwys yn mynd i gael ei werthu gyda'r ysgol – os oes, beth?**
- **Dyddiad a lleoliad yr arwerthiant.**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Edrychwch ar y catalogau gwerthu yng **Nghasgliad** Bodrewyn a Roseneath. Yng nghatalog gwerthu 1894 ar gyfer eiddo a thir ym Modrewyn (Caergybi) mae map hefyd sy'n dangos eu lleoliad. Ar werth mae lotiau 79-94. Pandy yw lot 89. Beth yw pandy? Penderfynwch a fyddai gennych ddiddordeb mewn prynu tir wrth ymyl pandy. Pam y byddai neu na fyddai gennych ddiddordeb?
- Pwy yw tenant y tir sy'n cael ei werthu ac ers faint mae wedi bod yn prydlesu'r pandy?
- Defnyddiwch yr adran o'r map ar wefan Casgliad y Werin Cymru i gael gwybod beth sydd yno heddiw – yw Steam Mill Road hyn yno o hyd? Ydy'r ffordd wedi cael ei hailenwi? Ydy'r tai a adeiladwyd rhwng 1894 ac 1900 yno o hyd? *Awgrym – edrychwch am Holborn a Station Street ar y map Arolwg Ordnans* – yna, dylech allu gweld ymhle'r oedd lotiau'r arwerthiant yn y catalogau gwerthu. Faint mae'r ardal hon wedi newid er 1900?

# Gweithgareddau Ychwanegol – Sut mae Eiddo wedi Newid

**Gan ddefnyddio catalogau a rhestrau gwerthu o'ch archifdy lleol, cymharwch sut mae'r eiddo yn eich ardal leol yn wahanol i eiddo yn yr ardaloedd eraill yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar gatalogau a rhestrau gwerthu o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Sut mae'r eiddo a'r ardal o'u cwmpas wedi newid? Sut mae hyn yn wahanol i'r ardaloedd eraill?

## *Edrych ar gatalogau a rhestrau gwerthu – ymchwilio i eiddo yn eich ardal leol*


Ar ôl astudio'r catalogau gwerthu o'ch archif lleol, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn ymchwilio i un eiddo neu ragor ac yn paratoi cyflwyniad byr am yr eiddo a sut mae'r eiddo hwnnw wedi newid ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Gall y disgyblion ddefnyddio'r nodwedd mapio ar wefan Casgliad y Werin Cymru, ac awyrluniau oddi ar wefannau megis Coflein neu Prydain oddi Fry (Britain from Above).


**Dyma rai o'r pynciau y gallech eu trafod:**

- **Unrhyw newidiadau i enw'r eiddo.**
- **Ydy'r eiddo'n bodoli o hyd ac a oes newid wedi bod?**
- **A oes eiddo arall wedi'i godi ar safle'r eiddo gwreiddiol?**


### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*


- Gan ddefnyddio Casgliad y Catalogau Gwerthu chwiliwch am yr enghraifft o hysbyseb gwerthu eiddo mewn arwerthiant ger Blaenafon ym mhlwyf Trefethin. Ym 1895, byddai'r rhan fwyaf o bobl leol yn gwybod ymhle'r oedd y tair fferm wrth eu henwau, er nad oes cyfeiriad ar eu cyfer. Ydyn nhw'n dal i fod yno heddiw? Defnyddiwch y mapiau ar wefan Casgliad y Werin Cymru, neu fapiau eraill ar-lein, i ddod o hyd i Gwmafon – dilynwch Ffordd Cwmafon i'r de o Flaenafon a gweld a allwch ddod o hyd i "Bailey Glas". (mae'n bosibl na fydd wedi'i sillafu yr un fath). Beth sydd yno erbyn hyn? Faint mae'r ardal hon wedi newid er 1900? Os na allwch ddod o hyd i Ffarm Cwmafon a Ffarm Penyrheol Medwen, beth sydd wedi digwydd iddyn nhw er 1895 tybed?
- Yn wahanol i'r catalogau ar gyfer y lleoedd eraill, sydd ar gyfer blwyddyn yn unig, mae'r tri chatalog gwerthu ar gyfer Wrecsam yn dyddio o 1867, 1886 ac 1890 ac mae dau ohonyn nhw ar gyfer yr un eiddo, "Roseneath". Ymhle'r oedd Roseneath yn Wrecsam? Pa mor ddefnyddiol yw'r disgrifiad o Lot 1 i rywun sy'n ceisio cael gwybod am "Roseneath"? Gallwch weld llun o "Roseneath" yn http://freepages.history.rootsweb.ancestry.com/~richardsonsmith/COCH%20History/wrexham.html (Saesneg yn unig) ar ôl iddo ddod yn ysbyty i bobl sâl oedrannus. Pa wybodaeth ychwanegol mae'r catalog gwerthu'n ei rhoi nad yw ar gael mewn llun? Mae catalog 1890 yn rhestru'r holl ddodrefn a'r eiddo yn "Roseneath". Pa gliw sydd yn y catalog sy'n awgrymu pam mae'r rhain i gyd yn cael eu gwerthu? Pa wybodaeth yn y rhestr ar gyfer cegin Rhif 1 a beth mae'r lampau'n ei ddweud wrthym am sut yr oedd "Roseneath" yn cael ei gynhesu a'i oleuo a pha fath o ynni a oedd yn cael ei ddefnyddio i goginio ym 1890?











# Gweithgareddau Ychwanegol – Defnyddio Nifer o Ffynonellau

**Gan ddefnyddio catalogau gwerthu ar y cyd â ffynonellau eraill o'ch archifdy lleol, ymchwiliwch i eiddo yn eich ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar gatalogau gwerthu ac ar ffynonellau eraill gan gynnwys ffurflenni cyfrifiad, ffotograffau, mapiau a chyfeiriaduron masnach eich ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Beth mae'r rhain yn ei ddweud wrthym am yr eiddo ar y pryd a sut maen nhw wedi newid?

## *Edrych ar gatalogau gwerthu ac ar ffynonellau eraill o'r archifau – sut mae'r ffynonellau hyn yn cysylltu â'i gilydd i'n helpu ni gyda'n hymchwiliadau?*


Ar ôl astudio'r catalogau gwerthu bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn dewis un eiddo neu ragor i'w ddefnyddio'n astudiaeth achos. Yna, byddan nhw'n defnyddio'r cyfeiriaduron masnach, mapiau Arolwg Ordnans, mapiau'r degwm, ffurflenni cyfrifiad a ffotograffau o'r archif i ddangos sut mae'n bosibl cysylltu ffynonellau â'i gilydd er mwyn cael gwybodaeth wrth ymchwilio i eiddo.


**Efallai y bydd y disgyblion yn dymuno cynnwys y wybodaeth ganlynol yn eu hastudiaethau achos:**

- **Enw'r eiddo ac a yw'r enw wedi newid**
- **Ydy'r eiddo wedi'i restru yn ffurflenni'r cyfrifiad neu yn y cyfeiriaduron masnach? Pwy oedd yn berchen ar yr eiddo?**
- **Ydy'r eiddo ar y mapiau Arolwg Ordnans neu ar fapiau'r degwm? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthyn ni?**
- **Ydy'r eiddo yno hyd heddiw? Pwy sy'n berchen ar yr eiddo nawr?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Gan ddefnyddio Casgliad Catalogau Gwerthu Saundersfoot, edrychwch ar y catalog gwerthu ar gyfer ystadau a ffermydd bach ger Saundersfoot ym 1901. Nodwch enwau'r ffermydd neu'r tyddynnod. Nawr edrychwch ar y mapiau Arolwg Ordnans ar gyfer Saundersfoot ym 1907. Faint o'r ffermydd a'r tyddynnod y gallwch ddod o hyd iddyn nhw ar y mapiau? Awgrym – mae Ystâd Trevayne i'r de, rhwng Saundersfoot a Dinbych y Pysgod a bydd tyddynnod St Issell i'r gogledd-orllewin o Saundersfoot. Edrychwch ar Gyfeiriadur Kelly ym 1914 ar gyfer Saundersfoot a St Issell. Edrychwch am y ffermydd yn y rhestrau. Pa rai y gallwch ddod o hyd iddyn nhw a pha rai sydd wedi'u rhestru sy'n byw yno ym 1914? Edrychwch yn ôl ar y catalog gwerthu – ai'r un bobl yw'r rhain ag a oedd yn byw yno ym 1901?











## Mae catalogau gwerthu yn gallu dweud wrthym am hanes yr adeiladau a'r tir mewn ardal benodol. Maen nhw'n gallu dweud wrthym hefyd am sut roedd pobl yn byw.


**Dyma drawsgrifiad o'r ffilm sy'n sôn am ddefnyddio catalogau gwerthu gan ddefnyddio un ardal yn enghraifft.**

Dyma rai o'r dogfennau sy'n ymwneud â gwerthu eiddo. Mae yma hysbysiad a chatalog ar gyfer gwerthu plas ac eiddo a thir arall mewn arwerthiant ym 1886. Ceir catalog gwerthu hefyd ar gyfer fferm a gafodd ei gwerthu mewn arwerthiant ym 1867.



COUNTY OF DENBIGH.


Particulars of Sale
OF
A COMMODIOUS AND VERY DESIRABLE
MANSION AND PREMISES,
IN
GROVE PARK, WREXHAM,
TWO EXCELLENT SHOPS
With Dwelling-Houses now occupied as Offices & Premises,
*Known as "Westminster Buildings,"*
Situate in HOPE STREET, WREXHAM, and
*VALUABLE*
LAND & COTTAGE
Situate at GRESFORD,
ALL FREEHOLD,
*TO BE SOLD BY AUCTION,*
AT THE
"WYNNSTAY ARMS HOTEL," WREXHAM,
BY
MESSRS. BAUGH & JONES
*On Wednesday the 28th day of April 1886,*
At 2 for 3 o'clock in the afternoon.



DENBIGHSHIRE.

Particulars of Sale
OF
FREEHOLD MANSION & PREMISES
Known as "Roseneath,"
Situate at GROVE PARK, WREXHAM, in the County of Denbigh,
ALSO
FREEHOLD SHOPS & PREMISES,
Known as "Westminster Buildings,"
Situate in HOPE STREET, WREXHAM.
ALSO
FREEHOLD LANDS & COTTAGE,
Situate at GRESFORD,
To be Sold by Auction,
BY
MESSRS. BAUGH & JONES
AT THE
"Wynnstay Arms Hotel," Wrexham
On Wednesday the 28th April, 1886,
At 2 for 3 o'clock in the afternoon,

JACKSON & CO.,
81, Gracechurch Street,
London, E.C.



LOT 1.
ALL THAT
CAPITAL MESSUAGE OR MANSION HOUSE,
Called "*Roseneath*," situate in the Township of WREXHAM REGIS, in the Parish of WREXHAM, in the County of DENBIGH,
With the Stables, Outbuildings, Lawns, Pleasure Grounds, Gardens and Pieces or Parcels of Land
thereunto belonging and held therewith; containing altogether by admeasurement 4a, 1r, 0p, or thereabouts

The Mansion which is approached by a handsome gateway with massive stone pillars and iron gates, and carriage drive to front, has recently been erected and is substantially built of stone and slate, adjoining are stableyard, detached offices with billiard room, laundry and out-offices, extensive conservatories in four compartments, green house and potting house. The grounds are very tastefully laid out in lawn tennis and other lawns, interspersed with flower beds, fountain, &c., and there are large and productive walled kitchen gardens, well stocked with thriving young fruit bearing trees; And upon the estate and surrounding the same are some fine timber trees and shrubberies and a piece of valuable pasture land.

The Mansion comprises on the basement two capital kitchens, scullery with brick oven, servants hall, pantry larder, china closet, wine and beer cellars, stores, coal cellar, and servants' w.c.

On the ground floor approached by a flight of stone steps, porch and lobby, there are spacious entrance hall and staircase, large dining, drawing and breakfast rooms, library and study.

On the first chamber storey there are seven good lofty bedrooms, bathroom and w.c.

On the second chamber storey there are seven bedrooms, housemaids closet and linen stores.

The detached offices comprise on the ground floor large laundry and clerk's office, and on the second storey excellent billiard room and smoking room and nearly adjoining the same is an octogan building used as a lavatory and w.c. neatly fitted up.

In the stable yard at the rear of the mansion there are lock-up coach house with loft over three stalled and two stalled stables, one loose box with lofts over, and two harness or saddle rooms and bedrooms over same, lean-to-carthouse, wood and lumber ditto., &c., &c.

Hysbyseb a chatalog gwerthu Plas Roseneath a'r eiddo, 1886.

Dolen i'r delweddau




CATALOGUE
Of an Important and Highly Attractive Sale, at
ROSENEATH,
WREXHAM, DENBIGHSHIRE.
Messrs. CHURTON, ELPHICK & Co.,
Have been favoured with instructions from the Representatives of the late Sir Evan Morris,
TO SELL BY AUCTION,
On Monday, Tuesday, Wednesday and Thursday,
August 18th, 19th, 20th & 21st, 1890,
Commencing each day at ELEVEN o'clock a.m. punctually, the genuine HOUSEHOLD
FURNITURE
AND EFFECTS,
Including Fine-toned full compass
GRAND PIANOFORTE,
Richly Carved Oak Elbow Chairs and Chests,
Beautiful Copper Fenders and Fire Implements, Superior Turkey, Axminster, Pile and Brussels Carpets, Indian, Persian and Kurd Rugs, Clock, in Marble Case, Costly China and other Ornaments, an assortment of valuable
SILVER PLATE & PLATED GOODS,
Jewellery, Dressing Cases, Lamps, about 120 Volumes of Books, Quantity of Music, Glass, China Services, Linen, small Cellar of
CHOICE WINES AND SPIRITS,
Oil Paintings, Water Colors and Engravings, including a Valuable Unfinished Picture of Old Wrexham, by *Nieman*; the Contents of the Domestic Offices, together with the
OUT-DOOR EFFECTS,
Comprising a Handsome Landau, Harness, Saddlery, Double-barrelled Breech-loading Gun, Pedigree St. Bernard Dog, Quantity of White Oats, Garden Requisites, Fire Grates, Chimney Pieces, and other Miscellaneous Effects.

The greater portion of the Furniture was manufactured by the well-known Firm of Messrs. W. & F. BROWN & Co. of Chester, and Mr. G. F. ARMITAGE of Manchester, and is in excellent condition.

N.B.—These Catalogues may be had at the GUARDIAN OFFICE, Wrexham; or from the Auctioneers, Messrs. CHURTON, ELPHICK, ROBERTS and RICHARDSON, Chester.


Phillipson and Golder, Printers, Eastgate Row, Chester.



LAMPS.

201 Excellent Plated Reading Lamp, with green shade chimney, &c.
202 Handsome Brass Paraffin Lamp and Shade
203 Duplex ditto ditto, with glass and ormolu stand
204 Glass Reading Lamp
205 Ditto ditto, with shade
206 Handsome Duplex Paraffin Lamp upon opal glass stand, with shade
207 Ditto ditto to match
208 Two Tin Oil Bottles, and quantity of oil
209 Sundry Lamp Chimneys
210 Ditto Wire Frames for lamps

END OF FIRST DAY'S SALE.



LAST DAY'S SALE
At ROSENEATH, WREXHAM,
ON
THURSDAY, August 21st, 1890,
Commencing at ELEVEN o'clock a.m. punctually.

KITCHEN No. 1.


Lot
635 Six Windsor Chairs
636 Two Japanned Trays
637 Excellent Painted Dresser, with 6 drawers and 2 panel doors
638 Kent's Patent Knife Cleaner, on stand
639 Roche's Improved ditto
640 Brass Preserving Pan
641 Three Copper Stew Pans
642 Brass Saucepan and Five small Copper Moulds and Cake Mould
643 Seven Iron Saucepans
644 Fish Kettle
645 Three Baking Tins, 5 Dripping Pans, and 2 Frying Pans
646 Tin Turbot Kettle
647 Housemaid's Box and Brushes
648 Ditto ditto ditto
649 Linoleum on floor
650 Gas Pendant and 2 Shades
651 Two ditto Brackets
652 Two Venetian Blinds

BUTLER'S PANTRY.

653 Painted Oblong Table
654 Single Chair

Catalog ar gyfer gwerthu dodrefn ac eiddo Roseneath, 1890.

Dolen i'r delweddau


SALE AT BROUGHTON FARM,
NEAR WREXHAM, DENBIGHSHIRE.


CATALOGUE
OF THE SALE OF THE WHOLE OF THE
LIVE AND DEAD
FARMING STOCK
OF
DAIRY COWS, HEIFERS AND HORSES,
IMPLEMENTS IN HUSBANDRY,
HOUSEHOLD FURNITURE,
AND OTHER EFFECTS NOW UPON THE PREMISES AT BROUGHTON FARM AFORESAID,
LATE IN THE OCCUPATION OF SAMUEL JONES, ESQ., DECEASED,
WHICH WILL BE
SOLD BY PUBLIC AUCTION,
BY MESSRS.

BAUGH & JONES,

*On Tuesday and Wednesday, the 29th and 30th days of January, 1867,*
Broughton Farm is situate from Wrexham Two Miles, and about One Mile from Wrexham Railway Station.
LUNCHEON AT 10 O'CLOCK THE FIRST DAY, SALE AT 11-30, TO A MINUTE EACH DAY.

BAYLEY AND BRADLEY, STEAM POWER PRINTERS, WREXHAM.

WREXHAM PUBLIC LIBRARY


CATALOGUE.
FIRST DAY—JANUARY 29TH, 1867.

Catalog gwerthu Fferm Brychdyn, ger Wrecsam, 1867.

Dolen i'r ddelwedd

**Beth yw catalogau gwerthu?**

Dogfennau y byddai cyfreithiwr wedi'u defnyddio yw catalogau gwerthu i hysbysebu eiddo i'w werthu. Y dyddiau hyn, bydd eiddo sy'n cael eu gwerthu yn cael eu hysbysebu gan werthwyr tai. Yn aml iawn, byddai eiddo'n cael ei werthu mewn arwerthiant a byddai'r arwerthiant yn cael ei hysbysebu gan roi manylion yr adeiladau a'r tir a oedd ar werth. Mae'r hysbysebion yn cynnwys gwybodaeth bwysig ynglŷn ag ai tŷ neu dir neu swyddfeydd a siopau a oedd yn cael eu gwerthu. Byddai'r arwerthiant yn aml yn cynnwys nifer o eiddo a oedd ar werth.

Yn ogystal â'r hysbysebion ar gyfer gwerthu mewn arwerthiant, roedd y catalogau'n darparu rhestrau mwy manwl o'r eitemau unigol a oedd i'w gwerthu gyda'r adeilad. Roedd y rhain yn cynnwys eitemau y tu mewn i'r adeiladau, a'r rheini fel rheol yn cael eu trefnu fesul ystafell, a hefyd yr adeiladau tu allan, a allai gynnwys offer gardd a da byw hefyd, er enghraifft anifeiliaid fferm.

Mae catalogau gwerthu yn cael eu cadw mewn Archifdai Sirol lleol, gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ac mewn ychydig o lyfrgelloedd lleol, yn yr Archifdy Cenedlaethol yn Llundain ac yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Mae'r rhain i'w canfod yn aml mewn casgliadau sy'n berthnasol i ystadau mawr. Pan rannwyd yr ystadau mawr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, byddai'r tai crand, y bythynnod, y ffermydd a'r lleiniau o dir yn cael eu gwerthu'n aml mewn lotiau ar wahân.

**Pa wybodaeth y gallwn ddod o hyd iddi mewn catalogau a rhestrau?**

Mae'r hysbyseb ar gyfer gwerthu plas "Roseneath" ym 1886 yn dweud wrthym ymhle'r oedd y tŷ a beth oedd maint yr eiddo. Mae hefyd yn darparu disgrifiad manwl o sut olwg oedd ar y tŷ a pha fath o ddeunydd a ddefnyddiwyd i'w adeiladu, yn union fel y bydd gwerthwyr tai heddiw yn disgrifio tai modern i'w gwerthu. Mae'r hysbyseb hefyd yn disgrifio patrwm y tŷ, faint o ystafelloedd sydd a beth yw maint yr ystafelloedd. Felly, mae hyn yn gallu dweud wrthym ei fod yn dŷ sylweddol ei faint gyda neuadd i weision, dwy gegin, pedair ar ddeg o lofftydd, a iard stabl. Mae'r hysbyseb yn dweud wrthym hefyd pwy oedd yn rhentu'r tŷ a faint roedden nhw'n ei dalu bob blwyddyn. Mae nifer o eiddo eraill ar werth yn yr un arwerthiant gan gynnwys siopau a swyddfeydd yn Wrecsam.

Mae'r catalog sy'n dyddio o werthu'r un tŷ, "Roseneath" ym 1890 yn ddiweddarach yn darparu mwy o fanylion hyd yn oed am yr eitemau unigol a oedd ym mhob ystafell yn y tŷ ac mae hyn yn gallu dweud wrthym sut fywyd roedd pobl yn ei fyw mewn tŷ mawr oedd yn cadw gweision.

Er enghraifft, yng nghegin rhif 1, mae rhestrau o botiau coginio sydd â gwahanol enwau ar gyfer gwneud gwahanol fathau o fwyd. Mae'r rhestr o lampau yn yr ystafell lampau'n dangos bod lampau olew yn cael eu defnyddio i oleuo'r tŷ ac mae bracedi nwy yn rhai o'r ystafelloedd sy'n golygu mai lampau nwy fyddai'n cael eu defnyddio i oleuo'r tŷ yn hytrach na thrydan fel sy'n digwydd heddiw. Mae'r catalog gwerthu hyd yn oed yn rhoi gwybodaeth am liw'r llenni a'r stolion traed ac am eu gwneuthuriad.

Mae'r catalog gwerthu ar gyfer Fferm Brychdyn yn cynnwys rhestr fanwl o stoc y fferm, sef yr anifeiliaid sydd ar werth, offer y fferm a dodrefn yr aelwyd sydd ar werth.

Yn aml iawn, ni fydd cofnodion sy'n disgrifio adeiladwaith y tai'n goroesi – maen nhw'n bethau prin. Felly, er mwyn cael gwybod am adeiladau, mae angen i ni edrych ar sut roedd pobl yn byw ar y pryd a bywyd y gymuned leol. Mae'r mapiau'n gallu dangos pa dai ac adeiladau eraill oedd yn yr ardal ar y pryd. Mae cofnodion eraill, er enghraifft cofnodion y cyfrifiad a chyfeiriaduron masnach yn dweud wrthyn ni pwy oedd yn byw mewn man penodol ar adeg benodol.

Gallwn weld yn y catalog gwerthu ar gyfer "Roseneath" ei fod yn dŷ crand ond pwy fyddai wedi byw yno?

Codwyd y tŷ gan ddyn o'r enw William Low ym 1864-1865. Peiriannydd rheilffyrdd oedd William Low. Roedd yn enwog am ddylunio'r twnnel cyntaf dan y sianel a fyddai'n uno Lloegr a Ffrainc drwy'r tir o dan y môr. Bu'n paratoi'r cynlluniau ar gyfer y twnnel yn Roseneath House ym 1867. Yn anffodus, dechreuodd y rhyfel yn Ffrainc ym 1879 ac nid oedd gwneud pethau'n haws i groesi o Loegr i Ffrainc ar drên dan y môr o ddiddordeb i bobl bellach. Roedden nhw'n ofni y byddai'r rhyfel yn dod i Loegr. Flynyddoedd lawer wedyn, daeth y syniad o adeiladu twnnel yn boblogaidd eto a chafodd ei gwblhau. Heddiw, gallwn deithio i Ffrainc ar drên dan y môr ar Eurostar ond y dyn a wnaeth y cynlluniau cyntaf ar gyfer hyn oedd William Low.

Pan fu farw William Low ym 1886, gwerthwyd Roseneath. Yn ddiweddarach, daeth y tŷ yn ysgol ac yn ysbyty i filwyr sâl. Yn anffodus, nid yw'r tŷ yno bellach ac mae Coleg Iâl wedi cael ei adeiladu ar y llain o dir lle'r oedd yn arfer bod.

Gallwn weld ar y catalog gwerthu ar gyfer Fferm Brychdyn, sydd ychydig y tu allan i dref Wrecsam, nad oedd hwn yn dŷ mor fawr â "Roseneath" oherwydd nifer yr ystafelloedd a ddisgrifir. Mae rhestrau o'r anifeiliaid a oedd yn cael eu defnyddio i weithio ar y fferm a oedd hefyd ar werth.

Yn wahanol i ffermio heddiw, roedd y gwaith ar y fferm yn cael ei wneud gan geffylau a fyddai'n tynnu'r offer fferm er mwyn paratoi'r pridd ar gyfer hau'r cnydau a'u codi wedyn pan oedden nhw'n barod i'w cynaeafu. Rydym yn gwybod hyn oherwydd nid oes tractorau ar werth fel y byddai pe bai fferm yn cael ei gwerthu heddiw. Yn hytrach, mae nifer o geffylau wedi'u rhestru i'w gwerthu, er enghraifft "y gaseg wagon ddu nerthol". Mae cliwiau hefyd am y cnydau a fyddai'n cael eu tyfu ar y fferm yn yr offer a oedd ar werth.

Bydd gan rai amgueddfeydd lleol 'focsys trin a thrafod' o arteffactau y maen nhw'n fodlon eu benthyca i ysgolion. Mae'r rhain yn ffordd ardderchog o ddod â hanes i'r ystafell ddosbarth i ategu'r dysgu.

# Rhagor o Wybodaeth – Archifdai Lleol

## Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy lleol isod:

Archifau Gwent enquiries@gwentarchives.gov.uk Ffôn: 01495 353363

Archifau Morgannwg glamro@caerdydd.gov.uk Ffôn: 029 2087 2200

Archifau Prifysgol Abertawe archives@swansea.ac.uk Ffôn: 01792 295021

Archifau Prifysgol Aberystwyth archives@aber.ac.uk Ffôn: 01970 628593

Archifau Prifysgol Bangor archives@bangor.ac.uk Ffôn: 01248 382966

Archifau Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant rodericbownlibrary@tsd.ac.uk Ffôn: 01248 38296

Archifau Ynys Môn archifdy@ynysmon.gov.uk Ffôn: 01248 751930

Archifdy Ceredigion archives@ceredigion.gov.uk Ffôn: 01970 633697/633698

Archifdy Cymdeithas Hynafiaethau Castell-nedd westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn: 01639 620139

Archifdy Gwynedd, Meirionnydd archifau.dolgellau@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01341 424 682

Archifdy Gwynedd, Caernarfon archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01286 679095

Archifdy Sir Ddinbych archif@sirddinbych.gov.uk Ffôn: 01824 708250

Archifdy Sir Benfro record.office@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 775456

Archifdy Sir y Fflint archives@siryfflint.gov.uk Ffôn: 01244 532364

Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam archives@wrecsam.gov.uk Ffôn 01978 297480

Gwasanaeth Archifau Conwy archifau.archives@conwy.gov.uk Ffôn 01492 577550

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Abertawe westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn 01792 636589

Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin archives@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 228232

Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau keelanp@caerdydd.ac.uk Ffôn: 029 2087 5678

Swyddfa Archifau Sir Powys archives@powys.gov.uk Ffôn: 01597 826088

## Gallwch ddod o hyd i ragor o adnoddau ar-lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn www.archiveswales.org.uk/**

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn www.culture24.org.uk/places+to+go/wales** (Saesneg yn unig)

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru: www.llgc.org.uk/cy/**

**Casgliad y Werin Cymru: www.casgliadywerincymru.co.uk**

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: www.cbhc.gov.uk**

**Coflein: www.coflein.gov.uk**